CIWB

# Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

**Rhifyn 10**

| Darn | Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol: |
|---|---|
| **Cyffrous!** | **Addysg gorfforol**<br>• cyfle i ymchwilio i gamp wahanol ac i gymryd rhan mewn rasys rhedeg / nofio<br>• trafod hyfforddiant priodol er mwyn gwella perfformiad a ffitrwydd<br>**Dylunio, Crefft a Thechnoleg**<br>• cyfle i gynllunio gwisg addas ar gyfer y gamp |
| **Nos da!** | **Gwyddoniaeth**<br>• cyfle i drafod materion sy'n ymwneud â chwsg ac i wneud gwaith pellach |
| **Arian ... arian ... arian** | **Mathemateg**<br>• cyfle i wneud ac i ddefnyddio holiadur ac i ddangos y canfyddiadau ar ffurf siart cylch<br>• cyfle i drafod arian, sut i ennill arian, sut i wario arian, sut i fod yn gyfrifol yng nghyd-destun arian.<br>**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf siart cylch<br>• chwilio am wybodaeth ar y we |
| **Dydd Sadwrn** | **Mathemateg**<br>• cyfle i drafod arian, sut i ennill arian, sut i wario arian, sut i fod yn gyfrifol yng nghyd-destun arian a sut i arbed arian<br>**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• chwilio am wybodaeth ar y we<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau<br>• paratoi a rhoi cyflwyniad PowerPoint |
| **Prynu beic ail-law** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun |
| **Problemau!** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun |
| **Rasio yn Sir Benfro** | **Daearyddiaeth**<br>• cyfle i ddod o hyd i leoliad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac i chwilio am wybodaeth am barciau cenedlaethol yn gyffredinol<br>**Mathemateg**<br>• cyfle i drosi milltiroedd i gilometrau<br>**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• chwilio am wybodaeth ar y we<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau<br>• paratoi a rhoi cyflwyniad (PowerPoint) |

| | |
|---|---|
| | **Gwyddoniaeth / Addysg gorfforol**<br>• trafod bwydlen fyddai'n addas ar gyfer rhywun sy'n paratoi ar gyfer ras dyn haearn<br>**Addysg gorfforol**<br>• trafod bwydlen fyddai'n addas ar gyfer rhywun sy'n paratoi ar gyfer ras y dyn haearn<br>• cynllunio a threfnu ras antur yn yr ysgol a chymryd rhan ynddi<br>• trafod hyfforddiant priodol er mwyn gwella perfformiad a ffitrwydd |
| **Problem!** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau |
| **Dyn trydan** | **Daearyddiaeth / Gwyddoniaeth**<br>• cyfle i drafod sut y gall dyn effeithio ar yr amgylchedd wrth iddo gael gwared ag offer trydanol ac electronig<br>• cyfle i drafod pwysigrwydd ailddefnyddio ac ailgylchu<br>**Celf a Dylunio / Dylunio a Thechnoleg**<br>• cyfle i gynllunio ac i wneud darn o waith celf, model neu gerflun allan o ddeunydd ailgylchadwy |
| **Beth sy'n digwydd?** | **Daearyddiaeth**<br>• cyfle i gyfeirio at rai adeiladau enwog ar draws y byd<br>**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• cyfle i chwilio am wybodaeth er mwyn ateb cwestiynau penodol<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau<br>**Mathemateg**<br>• cyfle i wneud gwaith ar y parthau amser, e.e. am faint o'r gloch mae Awr y Ddaear yn digwydd ar draws y byd?<br>**Gwyddoniaeth**<br>• cyfle i drafod helpu'r blaned a defnyddio ynni'n gyfrifol |
| **Arian! O ble mae'n dod? I ble mae'n mynd?** | **Mathemateg**<br>• cyfle i drafod arian, sut i ennill arian, sut i wario arian, sut i fod yn gyfrifol yng nghyd-destun arian<br>• ymchwilio i gyfraddau llog a chyfrifo faint o arian bydd rhaid talu yn ôl wrth gael gwahanol fathau o fenthyciadau<br>**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>• cyfle i chwilio am wybodaeth er mwyn ateb cwestiynau penodol<br>• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau |

**Y Cwricwlwm Cymreig**
Mae cyfle i ddysgu mwy am Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Ras y Dyn Haearn yn Ninbych-y-pysgod.

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol**
Mae peth o'r gwaith yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, e.e. wrth ystyried y camau priodol y dylid eu cymryd wrth brynu beic ail-law. Ar y dudalen problemau, anogir y disgyblion i drin a thrafod problemau sy'n gyffredin i'r oed. Trafodir materion ariannol yn ogystal.

Yn ogystal, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

**Datblygu meddwl**
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu** a **myfyrio:**

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

**Datblygu cyfathrebu**
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach:**

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

**Datblygu TGCh**
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

**Datblygu rhif**
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau:**

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[**Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru**, 2008, tud. 7]